

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)

ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

Sesiwn gwrandawriad 3 – Dosbarthiad Gofodol



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Pwynt Gweithredu S3/PG1 Cyffredinol

1] Y Mater dan Ystyriaeth:

Golygu'r Cynllun i sicrhau bod effaith unrhyw Newid Materion sy'n Codi yn cael ei adlewyrchu ym mhob rhan berthnasol o'r Cynllun, e.e. dileu pob cyfeiriad at 'hyd at' 55% o ran y canran twf yn y Ganolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol.

2] Ymateb y Cynghorau:

- 2.1 Yn ystod y Gwrandawriad tynnwyd sylw'r Cynghorau i'r angen i sicrhau cysondeb o fewn y Cynllun, h.y. y dylent fod yn ymwybodol o'r angen posib i wneud newidiadau canlyniadol i ran arall o'r Cynllun yn dilyn gwneud Newid Materion sy'n Codi.
- 2.2 Ceir enghraifft o sut mae'r Cynghorau wedi ymateb i'r Pwynt Gweithredu yma yn eu hymateb i Bwynt Gweithredu S3/PG7. Yn hwnnw, cafodd Newid Materion sy'n Codi ei adnabod sy'n cywiro'r ffigyrau canrannau a nodir ym Mholisi PS 15. Cyfeirir at y ffigyrau mewn manau eraill o'r Cynllun hefyd. Cafodd y rhannau hynny eu hadnabod ac fe wnaethpwyd y newidiadau canlyniadol er mwyn cael gwared ag unrhyw anghysondebau a fyddai'n codi wrth beidio gwneud hynny.
- 2.3 Mae'r Gofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi yn cynnwys cofnod o newidiadau canlyniadol eraill sydd eu hangen yn sgil cynnig 'prif' Newidiadau Materion sy'n Codi, e.e.
 - Diwygio maen prawf 4 o Bolisi TAI 1 a'r dangosydd perthnasol yn y Fframwaith Fonitro yn sgil gwneud Newid Materion sy'n Codi i gael gwared â Pholisi TAI X;
 - Newid Materion sy'n Codi i Bolisi TAI 5 wedi arwain at newidiadau canlyniadol i bolisiâu tai eraill, e.e. peidio cyfeirio at y dynodiad tai ym Miwmares ym Mholisi TAI 15, peidio cyfeirio at Rosneigr ac Abersoch ym Mholisi TAI 15;
 - Newid Materion sy'n Codi i ychwanegu polisi newydd am ynni PV solar wedi arwain at newidiadau canlyniadol i Bolisi ADN 2.
- 2.4 Mae'r Cynghorau felly yn fodlon bod newidiadau perthnasol wedi cael eu gwneud i'r Cynllun.